| COD ADNABOD UNIGRYW |
|---|
| |

# CAIS I GOFRESTRU SEFYDLIAD BUSNES BWYD

Rheoliad (Y Gymuned Ewropeaidd) Rhif 852/2004 ar Hylendid Bwydydd, Erthygl 6(2))

Dylai gweithredwyr busnes bwyd gwblhau'r ffurflen hon ar gyfer sefydliadau busnes bwyd newydd a dylai'r Awdurdod Bwyd perthnasol ei chael 28 diwrnod cyn dechrau ar weithrediadau bwyd. Bydd angen i rai sefydliadau bwyd gael eu cymeradwyo yn hytrach na'u cofrestru, a hynny'n dibynnu ar y gweithrediadau sy'n digwydd. Os ydych yn ansicr a fyddai unrhyw agwedd o'ch gweithrediadau bwyd chi'n golygu bod angen cael cymeradwyo'r sefydliad, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gael cyngor. **Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r Tîm Diogelwch Bwyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.**

1. **Cyfeiriad y sefydliad** ______________________________
(neu'r cyfeiriad lle bydd sefydliad symudol yn cael ei gadw)
______________________________ **Cod Post** ______________

2. **Enw'r busnes bwyd ar gyfer Masnachu** ______________________ **Rhif ffôn** ______________

3. **Enw Llawn gweithredwr / gweithredwyr y busnes bwyd** ______________________
(neu'r cwmni Cyfyngedig lle bo'n berthnasol)

4. **Cyfeiriad prif swyddfa'r Gweithredwr Busnes Bwyd** ______________________
(os yw'n wahanol i gyfeiriad y sefydliad)
______________________________ **Cod Post** ______________

**Rhif Ffôn** ______________________ **Ebost** ______________________

5. **Math o fusnes bwyd** (Ticio POB bocs sy'n gymwys os gwelwch yn dda):

Siop Fferm ☐
Gweithgynhyrchu/prosesu bwyd ☐
Pacio ☐
Mewnforio ☐
Cyfanwerthu/talu a chario ☐
Dosbarthu/warws ☐
Manwerthu
(yn cynnwys siop fferm) ☐
Bwyty/caffi/bar byrbrydau ☐
Marchnad/Stondin Farchnad ☐
Lladd Tymhorol ☐

Bwyty/ffreutur/cegin i staff ☐
Arlwyo ☐
Ysbyty/cartref preswyl/ysgol ☐
Gwesty/tafarn/tŷ lety ☐
Defnyddio tŷ preifat ar gyfer busnes bwyd ☐
Sefydliad Symudol e.e. fan hufen iâ ☐
Cynhyrchwr sylfaenol
(e.e. tir âr, anifeiliaid fferm) ☐
Brocer Bwyd ☐
Tecawê ☐
Arall **(Rhowch fanylion os gwelwch yn dda)**:
______________________

6. **Math o Fusnes:**

Unig Fasnachwr ☐
Partneriaeth ☐
Cwmni cyfyngedig ☐
Arall **(Rhowch fanylion os gwelwch yn dda)**:
______________________
______________________
*(Os yn Gwmni Cyfyngedig, cwblhau 7 isod os gwelwch yn dda)*

7. **Enw'r Cwmni Cyfyngedig** ______________________ **Rhif y Cwmni** ______________

**Cyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig** ______________________
______________________________ **Cod Post** ______________

8. **Cyflenwad Dŵr i'r Sefydliad Busnes Bwyd** **Cyflenwad Cyhoeddus (Prif Gyflenwad)** ☐ **Cyflenwad Preifat** ☐

9. **Enw llawn y rheolwr/wraig (os yn wahanol i'r gweithredwr)** ______________________

10. **Os yw hwn yn fusnes newydd** ______________
Dyddiad rydych yn bwriadu agor

12. **Os yw hwn yn fusnes tymhorol** ______________
Cyfnod rydych yn bwriadu bod yn agored bob blwyddyn

11. **Dewis Iaith** ______________________
(Dweud pa un os gwelwch yn dda)

**Llofnod Gweithredwr y Busnes Bwyd** ______________________

**Dyddiad** ______________

**Enw** ______________________
(LLYTHRENNAU BRAS)

**AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN HON, RHAID I WEITHREDWYR BUSNES BWYD HYSBYSU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI OS BYDD UNRHYW NEWID YN Y GWEITHREDIADAU. DYLID GWNEUD HYNNY O FEWN 28 DIWRNOD AR ÔL GWEUD Y NEWID / NEWIDIADAUIADAU.**

| AT DDEFNYDD SWYDDFA YN UNIG | | |
|---|---|---|
| | LLOFNOD | DYDDIAD |
| IDOX | | |
| DIWEDDARU CAIS | | |

## NODIADAU AR GOFRESTRU MANGRE BWYD

**Beth yw cofrestru?**

1. Mae'n ofynnol gan y gyfraith i fod yn cofrestru mangre a ddefnyddir ar gyfer busnes bwyd (yn cynnwys stondinau marchnad, cerbydau danfon a strwythurau symudol eraill). Bydd cofrestru'n caniatáu i awdurdodau lleol gadw rhestr gyfoes o'r holl lefydd felly yn eu hardal hwy, er mwyn gallu ymweld â'r mangreoedd pan fydd angen. Bydd pa mor aml mae ymweliadau'n digwydd yn dibynnu ar y math o fusnes.

**Pwy sydd angen cofrestru?**

2. Os ydych yn rhedeg busnes bwyd, rhaid i chi ddweud wrth yr awdurdod lleol am unrhyw fangre yr ydych yn ei defnyddio ar gyfer storio, gwerthu, dosbarthu neu baratoi bwyd. Mae mangre bwyd yn cynnwys bwyty, gwesty, caffi, siop, archfarchnad, ffreutur staff, cegin mewn swyddfa, warws, tŷ llety, cerbyd danfon, cerbyd bwffe ar drên, stondin farchnad neu stondin arall, fan hufen iâ neu gŵn poeth ayb.

3. Os byddwch yn defnyddio cerbyd(au) ar gyfer eich busnes bwyd mewn cysylltiad gyda mangre barhaol fel siop neu warws, nid oes ond angen i chi ddweud wrth yr awdurdod lleol sawl cerbyd sydd gennych. Nid oes angen cofrestru pob cerbyd ar wahân. Os oes gennych un neu fwy o gerbydau ond dim mangre barhaol, rhaid i chi ddweud wrth yr awdurdod lle bydd y cerbydau'n cael eu cadw fel arfer.

4. Rhaid i unrhyw un sy'n dechrau busnes bwyd newydd gofrestru gyda'r awdurdod lleol o leiaf 28 diwrnod cyn gwneud hynny.

5. Mewn rhai llefydd, bydd dau neu fwy o fusnesau bwyd dan reolaeth yr un gweithredwr busnes bwyd. Er enghraifft, yn achos canolfan siopa lle mae dau neu fwy o sefydliadau busnes bwyd dan reolaeth yr un gweithredwr busnes bwyd, rhaid i'r gweithredwr hwnnw sicrhau bod pob sefydliad sydd dan eu rheolaeth hwy yn cofrestru ar wahân. Felly dylai gweithredwyr busnes bwyd gwblhau ffurflen gofrestru ar gyfer pob sefydliad bwyd ar wahân.

6. Bydd hefyd lefydd yn bodoli lle mae dau neu fwy o sefydliadau busnes bwyd dan reolaeth gwahanol weithredwyr busnes bwyd. Er enghraifft, gall archfarchnad gael siop goffi ar y fangre dan reolaeth gwahanol weithredwr busnes bwyd, fel cadwyn o siopau coffi. Mewn achos o'r fath, ni fydd cofrestriad yr archfarchnad yn cynnwys y siop goffi a rhaid i weithredwr y siop goffi ei chofrestru ar ei phen ei hunan. Byddai siop goffi, bar byrbrydau ayyb mae'r archfarchnad ei hunan yn eu gweithredu yn cael eu cynnwys fel rhan o gofrestriad yr archfarchnad ei hunan.

**Sut allaf gofrestru?**

7. Trwy lenwi'r ffurflen hon. Does dim modd gwrthod eich cofrestru a does dim angen talu. Rhaid gyrru'r ffurflen gofrestru i'r cyfeiriad ar du blaen y ffurflen. Os ydych yn masnachu tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gofrestru. Os bydd eich ffurflen gofrestru'n cael ei gyrru i'r Awdurdod Lleol anghywir, fydd eich cais ddim yn weithredol hyd nes bydd yn cyrraedd y lle iawn. Os byddwch yn defnyddio mangreoedd mewn ardal mwy nag un awdurdod lleol, rhaid i chi gofrestru ar wahân gyda phob awdurdod.

8. Rhaid rhoi tic ym mhob bocs sy'n berthnasol ar gyfer eich busnes chi, ateb pob cwestiwn a rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen. Dylai busnesau tymhorol sy'n gweithredu am gyfnod o amser bob blwyddyn roi'r dyddiadau pan fyddant yn agored yn yr ateb i gwestiwn 12. Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau i'w gofyn, bydd eich awdurdod lleol yn eich helpu. Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth os ydych yn gwybod ei bod yn anghywir.

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth fyddaf yn ei rhoi ar y ffurflen?**

9. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi'r manylion ar ei Gofrestr. Bydd cofrestr o gyfeiriadau a'r math o fusnes sy'n digwydd ym mhob un ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Ni fydd y cyhoedd yn cael gweld gweddill y wybodaeth, dim ond hynny, ac ni fydd gwybodaeth yn cael ei datgelu tu allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Adrannau Llywodraeth Leol ac Asiantaethau'r Llywodraeth. Bydd y manylion yn cael eu defnyddio ar gyfer cofrestru, gorfodaeth a rheoli arian cyhoeddus.

**Newidiadau**

10. Unwaith byddwch wedi cofrestru gyda'r awdurdod lleol, fydd dim ond angen i chi eu hysbysu eto os bydd y Gweithredwr Busnes Bwyd yn newid, os bydd natur y busnes yn newid, neu os bydd newid yn y cyfeiriad lle mae mangre symudol yn cael ei gadw. Bydd angen i'r Weithredwr Busnes Bwyd newydd gwblhau ffurflen gais.

Os bydd yr awdurdod lleol eisiau newid cofnod yn y Gofrestr am fod rhywun arall wedi rhoi gwybodaeth, byddwch yn cael 28 diwrnod o rybudd a chyfle i roi eich sylwadau ar y bwriad i newid.

**MAE'R NODIADAU HYN WEDI'U DARPARU FEL GWYBODAETH YN UNIG AC NI DDYLID EU HYSTYRIED YN DDATGANIAD CYFLAWN O'R GYFRAITH**

Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn
AR ÔL CWBLHAU'R FFURFLEN, DYLID EI DYCHWELYD I:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tîm Iechyd a Diogelwch Bwyd
Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG